**CYNHADLEDD RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**
**CAMBRIAN COAST RAILWAY LIAISON CONFERENCE**

## Cwestiwn i TRENAU ARRIVA CYMRU CYF. / Question for ARRIVA TRAINS LTD

## Cwestiwn i / Question for NETWORK RAIL

**Mae Aelodau Cyngor Cymuned Llangelynnin wedi bod yn bryderus ers peth amser am faterion diogelwch ar y ffordd uchod gan fod y wal derfyn a'r rhwystrau diogelwch mewn cyflwr gwael iawn ac angen sylw brys cyn i ddamwain angheuol ddigwydd.**

23.01.15 - Adroddodd Cyngor Cymuned Llangelynnin am eu pryderon i Gyngor Gwynedd – yn amlygu'r peryglon i ddefnyddwyr ffordd ar y rhan yma gan fod y rhwystrau diogelwch ddim yn addas i'w pwrpas.

12.05.15 – Cadarnhaodd Cyngor Gwynedd eu bod wedi asesu'r safle ac o ganlyniad i hyn rhoddwyd cyfyngiad 30mya dros dro ar y rhan yma er diogelwch defnyddwyr y ffordd. Hysbyswyd y Cyngor Cymuned hefyd eu bod wedi cysylltu gyda'r Rheilffordd i gael eu hymateb, gan fod y Rheilffordd yn gyfrifol am y wal derfyn a'r rhwystrau diogelwch.

06.10.15 – Cadarnhaodd Cyngor Gwynedd eu bod wedi cysylltu â'r Rheilffordd ac y byddai cyfarfod safle yn cael ei gynnal rhyw dro ym mis Hydref – ond nid oedd unrhyw ddyddiad wedi ei bennu.

01.02.16 – Anfonodd Cyngor Cymuned Llangelynnin lythyr at Network Rail i amlygu eu pryderon am faterion diogelwch yma – Cyf Grid SH61096 o bentref Friog, i'r de tuag at bentref Llwyngwril – Cyf Grid SH60213 11238

29.02.16 - Derbyniwyd neges oddi wrth Network Rail yn cadarnhau bod cais y Cyngor Cymuned wedi ei drosglwyddo i Dîm Strwythurau RAM Network Rail i'w ymchwilio ymhellach – Cyfeirnod Network Rail – 160204-000019.

12.04.16 - Neges gan Mr Stewart McIlroy Swyddog Cysylltiadau Cymunedol, Network Rail gyda diweddariad am yr achos – 'Cynigwyd y bydd Cyngor Gwynedd yn ymgymryd â'r gwaith ar ran Network Rail ar gost Network Rail'

11.07.16 – Derbyniwyd neges oddi wrth Mr McIlroy yn dweud y bydd yn cysylltu gyda ni gan ein diweddaru unwaith y bydd wedi cael rhagor o wybodaeth …
…hyd yma ni allaf roi ateb na diweddariad gan Network Rail na Chyngor Gwynedd ynglŷn â beth y bwriedir ei wneud yma …

Fel y soniais yn fy llythyrau diwethaf at Gyngor Gwynedd a Network Rail ym mis Tachwedd 2016 a Ionawr 2017, bu digwyddiad yma cyn y Nadolig pan darodd car i fewn i'r wal derfyn ond diolch i'r drefn ni aeth dros drac y rheilffordd. Mae'r wal yn dal wedi ei dymchwel ac mae'r arwyddion ffordd yn rhybuddio defnyddwyr ffordd eraill am y perygl yn dal ar y safle – bron i dri mis ar ôl y ddamwain.

A wnewch chi, os gwelwch yn dda, geisio cael Cyngor Gwynedd a Network Rail i gyd-gysylltu ac i ymroi i ddyddiad ynglŷn â phryd y byddant yn dechrau ar y gwaith gan fod angen i hyn gael ei wneud fel mater o frys, cyn i ddamwain angheuol ddigwydd yma – does neb eisiau cael y bai am esgeulustod yn nag oes?

Cyngor Cymuned Llangelynnin